

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 7 Hydref 2021 am 18.30

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Y Cynghorydd Alun Thomas

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Jên Morris

Y Cynghorydd Dafydd K Jones

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Jên Morris.

2. Ymddiheuriadau gan Cyng. Lowri Evans a Kevin Williams.

3. Ardal Ni – Bro Ogwen – Dafydd Einion Jones, Cyngor Gwynedd

Derbyniwyd wybodaeth am yr ymgynghoriad Ardal Ni – Bro Ogwen yn ein cyfarfod diwethaf, ac yn sgil hynny penderfynwyd gwahodd Dafydd Einion Jones i'r cyfarfod yma. Cafwyd cyflwyniad ar yr ymgynghoriad a rhoddwyd cyfle i'r aelodau roi eu sylwadau. Diolchwyd i Dafydd am fynychu'r cyfarfod.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Medi, 2021.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Twll yn y ffordd ger y Wern – Cadarnhawyd fod y twll oedd wedi ymddangos wedi gael ei drwsio gan Dŵr Cymru, ond derbyniwyd epost gan y Cyng. Megan Tomos fod twll arall wedi ymddangos yn uwch i fyny. Y Clerc i gysylltu hefo Dŵr Cymru eto.

Cysylltiad Fibreoptig – y Clerc wedi holi am ddiweddariad, ond dim ymateb hyd yn hyn.

Llyn Bryn – Y Clerc wedi cysylltu gyda Stad Penrhyn am y 3 bwlch, ond heb dderbyn unrhyw ymateb. Y Clerc i gysylltu eto.

Sedd Wag – Nodwyd y Clerc fod hysbysiad cyf-ethol y sedd wag wedi dod i ben ar y 24ain o Fedi, a bod neb wedi dangos diddordeb ynnddi hyd yn hyn. Y Clerc i ail hysbysebu.

Arwydd Maes y Groes – Addawodd Cyngor Gwynedd eu bod am gosod arwyddion newydd ger Maes y Groes yn ôl ym mis Rhagfyr 2019, nid oes arwydd newydd wedi ei rhoid ar safle hyd yn hyn. Y Clerc i atgoffa Cyngor Gwynedd ac i holi os oes modd rhoid arwydd ar yr ochr arall hefyd.

Terfyn cyflymder Talybont i Maes y Groes– Nodwyd y Cyng. Evan Jones bod ceir yn gyrru yn ofandwy o gyflym ar hyd y ffordd ger Maes y Groes – y Clerc i holi Cyngor Gwynedd os oes modd cynnal archwiliad ar y safle, ac i ymestyn yr terfyn cyflymder ‘30’ i fyny ar y ffordd pasio Maes y Groes.

Tyfiant llwybr Cae Rhoysydd – Nodwyd bod tyfiant trwchus yn creu rhwystr i linell y llwybr – y Clerc i gysylltu eto gyda’r adran llwybrau.

Datblygiadau Bronnydd Isaf – Nodwyd yn y cyfarfod fod yno fynediad newydd wedi gael ei greu ar lon Bronnydd, ac hwnnw yn arwain at gaban newydd ar dir y fferm. Y Clerc i holi os oes angen caniatad cynllunio ar gyfer y math hwn o ddatblygiad.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

Cyngor Gwynedd	Archwiliad Mewnol	£198.00
Kehoe Countryside Ltd	Torri gwair Cae Pel Droed Talybont	£300.00
Julian Johnson	Torri gwair – Medi 2021	£230.00

Nododd y Clerc fod y mandad newydd a gafwyd ei gwblhau wedi’i ddychwelyd gan y banc unwaith eto, y Clerc i drefnu cyfarfod yn y gangen leol gyda’r cyn-glerc, y clercc presennol, a’r lofnodwr arfaethedig eraill.

7. Cae chwarae Tal y Bont

Gardd Cymunedol – Cadarnhawyd y bydd Huw Davies, Rheolwr Dyffryn Gwyrdd yn cysylltu a ni pryd fydd y gwaith yn barod i gychwyn.

Cae Pel-droed – Yn dilyn ebost gan Glwb Pel Droed Seintiau Lleol Bangor yn holi os oes modd defnyddio Cae Pel Droed Talybont ar gyfer gemau, nid yw’r Cyngor wedi derbyn unrhyw ymateb, ac nad yw’r Clwb wedi defnyddio’r cae. Y Cyng. Wyn Bowen Harris i weld os oes ganddo manylion cyswllt i’r Clwb ar yr ebost gwreiddiol, a’i ddanfôn ymlaen at y Clerc. Y Clerc i fynd ymlaen i drefnu cyfarfod rhwng Alex Tedford o Broc Design, Cyngor. Evan Jones ac Alun Thomas a’r Clerc. Y Clerc i holi contractwr Kehoe os oes modd gael un toriad arall cyn y gaeaf.

Siglen ‘Hurricane’ – Nodwyd fod y siglen wedi gael ei thrwsio.

Ffens – Nodwyd fod y ffens yn y cae chwarae wedi gael ei thrwsio gan contractwr lleol.

8. Y Mynydd

Y Cyng. Wyn Bowen Harris i ddanfôn y rhestr hawliau porri i’r Clerc, a’r Clerc i gylchredeg i gweddill yr is-bwyllgor Mynydd i gael ei gymeradwyo. Ar ôl ei awdurdodi, cytunwyd bydd y Clerc yn danfôn y llythyrau cyn gynted â phosib.

9. Datblygiad Cae Rhoysydd

Yn dilyn danfôn llythyr gan Menter Iaith Dyffryn Ogwen a’r Cyngor Cymuned at Diprwy Prif Weithredwr, Adra, yn gofyn am gyfarfod i drafod ein cwyn, nodwyd bod yr aelodau wedi ei syfrdannu ac yn siomedig iawn hefo’r ymateb nad yw’n barod i gwrdd â ni i drafod ymhellach. Cadarnhawyd y Cyng. Geraint Hughes fod Corff Llywodraethwyr yr ysgol wedi sefydlu is-grwp i edrych ar y mater yma, a nodwyd fod yr ysgol yn bendant

heb dderbyn ymgynghoriad ar y datblygiad yma, ond hefyd heb dderbyn unrhyw daliad am datblygiad Lon Bach Odro. Cadarnhawyd fod y is-grwp wedi mynd ymlaen i ofyn am gyfarfod gyda Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd, ond yn anffodus gwrthodwyd eu cais.

10. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Un Llais Cymru – Ymgynghoriad ar drethi lleol ar gyfer ail gartrefi a llety hunanarlwyo – Penderfynwyd fod y Cyngor yn cefnogi codi trethi cyn belled a bod yr arian yn dod yn ôl i'r ardal leol ac i helpu gyda anghenion tai lleol, ac hefyd i wneud yn siwr bod o ddim yn bosib i unigolion osgoi'r dreth hon trwy fylchau yn y sistem e.e. gan honni ei fod yn fusnes ayyb.

Cyflwynwyd – Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – danfon unrhyw sylwadau erbyn 26 Tachwedd 2021.

11. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Dim.

12. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0078/21/CC

Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0099/21/CC

Ogwen Bank Bethesda

Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau

Penderfyniad: Ar y gweill.

C21/0455/21/RA

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod rhif 13 (Cynllun Tai Fforddiadwy) a 23 (Datganid Dull Ymlusgiaid) ynghyd a rhannol rhyddhau amod 17 (Datganiad Dull Adeiladwaith), 22 (Cynllun Atal Llygredd) ac amod 24 (Cynllun Gwelliannau Bioamrywiaeth).

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0475/21/AC

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Newid amod rhif 2 (diwygiadau i'r cynllun, edrychiadau'r tai a'r system ddraenio) ynghyd a newid amod 28 (defnyddio ffensio math heras yn hytrach na ffensio atal dyfrgwn) o ganiatâd rhif C19/0950/21/LL.

Penderfyniad: ar y gweill.

NP3/21/40D

2 Green Cottage, Llanllechid

Penderfyniad: ar y gweill.

C21/0862/21/RA

Tir Gyferbyn Maes Bleddyn, Bethesda

Rhyddhau amod 3 (llechi), 4 (manylion defnyddiau allanola'r paneli solar), 9 (cynllun tirlunio) ac amod 15 (cynllun goleuo) o ganiatâd cynllunio rhif C19/0950/21LL

Penderfyniad: ar y gweill.

Ceisiadau Cynllunio:

Dim

12. Materion Brys

Tyllau yn ngwaelod Allt Ty'n Hendre – Nodwyd y Cyng. Alun Thomas fod tyllau mwr wedi ymddangos yn ngwaleod yr allt rhwng mynediad Ty'n Hendre a Ty Gwyn – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Gwlau Cocos, Traeth Lafan – Nodwyd fod llawer o bobl wedi bod yn casglu cocos ar Draeth Lafan yn ddiweddar, ac eu bod yn defnyddio tir ffermio cyfagos fel toiled ac yn gadael golwg a ysbwriel ar ei holau. Y Clerc i hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru.

Cyfarfod wyneb i wyneb – Penderfynwyd bydd y Cyngor yn trio cynnig cyfarfod wyneb a wyneb ac un rhithiol ar gyfer mis Tachwedd, y Clerc i edrych i fewn i lleoliadau addas ble mae cysylltiad wifi ar gael.

Ffordd Llwyn Bleddyn – nodwyd y Cyng. Dafydd Jones fod angan ymestyn y llinellau melyn ac rhoid drych ar y ffordd gyferbyn a llwybr Lon Bach Odro – esboniodd y Clerc fod y darn yma ar ffin Cyngor Cymuned Bethesda ac ei bod yn ymwybodol fod Cyngor Bethesda yn edrych i fewn i'r mater. Y Clerc i holi Clerc Cyngor Bethesda am ddiweddariad.

Coedwig Braichmelyn – Derbyniwyd cwyn gan ffermwr lleol fod defaid yn dianc o'r goedwig oherwydd fod ffensys wedi gael ei difrodi – y Clerc i hysbysu'r adran goedwigaeth yn Cyfoeth Naturiol Cymru.

Arwyddion llwybrau Tyddyn Du – Y Clerc i holi'r Swyddog Llwybrau am fwy o arwyddion i rhoid ar y llwybrau ger y fferm.

Fan wedi parcio ger Giât Mynydd – Nodwyd fod y fan dal i barcio wrth giât y Mynydd, y Clerc i ofyn i'r Heddlu i ymweld a'r perchennog eto.